YR ATODLEN

Diwygiadau i Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

# RHAN 1

**Diwygiadau**

**5.** Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "nodyn traddodi" ("*consignment note*"), rhodder—

"ystyr "nodyn traddodi " ("*consignment note*"), mewn perthynas â llwyth o wastraff peryglus, yw'r ffurflen ddynodi y mae'n ofynnol iddi fod gyda'r gwastraff peryglus pan drosglwyddir ef yn unol ag Erthygl 19(2) o'r Gyfarwyddeb Wastraff.",

(ii) mewnosoder yn y man priodol—

"ystyr "gwastraff domestig" ("*domestic waste*") yw gwastraff a gynhyrchir gan aelwyd;",

(iii) yn lle'r diffiniad o "amlgasgliad" ("*multiple collection*"), rhodder—

"ystyr "amlgasgliad" ("*multiple collection*") yw taith a wneir gan gludwr unigol sy'n bodloni'r amodau a ganlyn—

(a) bod y cludwr yn casglu mwy nag un llwyth o wastraff peryglus yn ystod y daith;

(b) bod pob llwyth yn cael ei gasglu o fangreoedd gwahanol;

(c) bod pob mangre y cesglir ohoni yng Nghymru ; a

(ch) bod pob llwyth a gesglir yn cael ei gludo gan y cludwr hwnnw yn ystod y daith at yr un traddodai;",

(iv) hepgorer diffiniad o "nodyn traddodi amlgasgliad" ("*multiple collection consignment note*");

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adfer" ("*recovery*") yw unrhyw weithrediad a'i brif ganlyniad yw bod gwastraff yn ateb diben defnyddiol drwy ddisodli deunyddiau eraill a fyddai fel arall wedi cael eu defnyddio i gyflawni swyddogaeth benodol, neu wastraff a gaiff ei baratoi i gyflawni'r swyddogaeth honno, ar y safle neu yn yr economi ehangach (mae Atodiad II o'r Gyfarwyddeb Wastraff yn gosod rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o weithrediadau adfer);

ystyr "brocer" ("*broker*") yw ymgymeriad sy'n trefnu i adfer neu waredu gwastraff ar ran eraill, gan gynnwys broceriaid o'r fath nad ydynt yn cymryd meddiant ffisegol o'r gwastraff;

ystyr "casglu" ("*collection*") yw crynhoi gwastraff, gan gynnwys sortio cychwynnol a storio cychwynnol o wastraff at ddibenion cludo gwastraff i gyfleuster trin gwastraff;

ystyr "cynhyrchydd" ("*producer*") yw unrhyw un y mae ei weithgareddau yn cynhyrchu gwastraff ("y cynhyrchydd gwreiddiol") neu unrhyw un sy'n gwneud

gwaith rhagbrosesu, cymysgu neu weithrediadau eraill sy'n golygu bod newid yn natur neu yng nghyfansoddiad y gwastraff;

ystyr "deiliad" ("*holder*") yw cynhyrchydd y gwastraff neu'r person sydd yn ei feddu;

ystyr "deliwr" ("*dealer*") yw unrhyw ymgymeriad sy'n gweithredu yn rôl penadur er mwyn prynu ac yna gwerthu gwastraff, gan gynnwys delwyr o'r fath nad ydynt yn cymryd meddiant ffisegol o'r gwastraff;

ystyr "gwaredu" ("*disposal*") yw unrhyw weithrediad nad yw'n adfer hyd yn oed os oes canlyniad eilaidd i'r gweithrediad sef adennill sylweddau neu ynni (mae Atodiad I o'r Gyfarwyddeb Wastraff yn gosod rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o weithrediadau gwaredu);

ystyr "olew gwastraff" ("*waste oil*") yw unrhyw iriad mwynol neu synthetig neu olew diwydiannol nad yw bellach yn addas at y defnydd a fwriadwyd ar ei gyfer yn wreiddiol, megis olew sydd wedi ei ddefnyddio a hwnnw'n olew peiriannau hylosgi ac olew gerbocs, olew iro, olew ar gyfer tyrbinau ac olew hydrolig;

ystyr "rheoli" ("*management*") yw casglu, cludo, adfer a gwaredu gwastraff, gan gynnwys goruchwylio'r gweithrediadau hynny a'r ôl-ofal am safleoedd gwaredu, a chan gynnwys camau a gymerir fel deliwr neu frocer;

ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.";

(c) ym mharagraff (3)(c), yn lle ", atodlen y cludwyr neu nodyn traddodi amlgasgliad", rhodder "neu atodlen o gludwyr".